**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mehefin 2010**

**PEIRIANNAU AG YSGOL AC ESGYNLAWR (ALPs)**

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw ymofyn am gefnogaeth yr Aelodau am argymhellion y Panel Gweithredol y dylai'r Awdurdod newid safon gweini'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr o 20 munud i 30 munud ac o ganlyniad, nid yw'r Awdurdod yn edrych ar ddisodli un o'r pedwar peiriant arbenigol sydd eisoes mewn bodolaeth

## Cyflwyniad

2 Yn 2006 penderfynodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar safon gweini o 20 munud i Beiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr ac o ganlyniad cafodd y pedwar peiriant fflyd, wedi eu lleoli yn Wrecsam, Y Rhyl, Llandudno a Bangor, eu cynnal a'u cadw.

3 Yn 2012 ni fydd y Peiriant ag Ysgol ag Esgynlawr a leolir yng ngorsaf dân Wrecsam bellach mewn cyflwr ddigon da i gael ei ddefnyddio, mae cyfle wedi codi i adolygu'r safonau gweini presennol cyn dechrau ar y broses gaffael.

4 Mae cost cyfalaf disodli'r Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr yn sylweddol. Mae oddeutu £600,000 sydd yn gost o £50,000 y flwyddyn i'r cyllid refeniw, am oes weithredol y peiriant.

## Gwybodaeth

5 Prif ddefnydd y Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr yw cymhwyso dwr i ddiffodd tân o blatfform dyrchafedig, a chynorthwyo diffoddwyr tân i gael mynediad i lefelau uwch er mwyn brwydro yn erbyn tân.

6 Mae adeiladau modern, ynghyd â thechnegau adeiladwaith modern a ddefnyddir wrth ailwampio hen adeiladau, bron â atal y defnydd o Beiriant ag Ysgol ac Esgynlawr at ddibenion achub. Fe atgyfnerthir hyn gan reolau adeiladwaith, diogelwch tân a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Mae ystadegau'n dangos mai prin iawn y caiff pobl eu hachub o dân gan Beiriant ag Ysgol ac Esgynlawr ac fe'i defnyddir yn bennaf yn ystod gweithred achub arbenigol ei natur.

7 Gweler Tabl 1 ar gyfer data sydd ar gael dros y tair blynedd diwethaf sydd yn arddangos enghreifftiau pan ddefnyddiwyd Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr ac i ba bwrpas.

8 Mae'r peryglon sydd yn ynghlwm â symud o safon gweini 20 munud i 30 munud i Beiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr yn isel iawn oherwydd mae'r data digwyddiad yn dangos na ddefnyddir Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr fel peiriant ymateb brys. O ran y digwyddiadau a fynychwyd maent yn arferol yn cael eu defnyddio yn dilyn cais yn ystod cyfnodau diwethaf digwyddiad. Dim ond mewn 7% o ddigwyddiadau (10 allan o 147) y defnyddiwyd Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr yn ystod y 30 munud cyntaf. Oherwydd yr amser a gymerir i osod yr adnoddau gofynnol i gefnogi'r gweithrediad nid yw amser y Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr mor allweddol â pheiriannau eraill.

9 Ynghylch lle y dylid lleoli'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr, dylid ystyried y wybodaeth ganlynol.

10 Defnyddir y Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr a leolir yn Wrecsam yn amlach na unrhyw un arall dros Ogledd Cymru (Gweler Tabl 1). Cafwyd awgrym y gallai ardal Wrecsam ddefnyddio'r Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr a leolir yng Nghaer. Byddai hyn yn gofyn am gytundeb yn unol â Deddf Gwasanaethu Tân ac Achub 2004 i alluogi Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr, wedi ei leoli yng Nghaer, gael ei ddefnyddio yn ardal Wrecsam a'r cyffiniau. Mae trafodaethau blaenorol gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd

Gaer wedi dynodi pryderon am leoliad y Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr agosaf pe na fyddai Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr Caer ar gael. Mae darpariaeth y peiriannau cyrraedd yn uchel hefyd yn ymddangos yng Nghynllun Lleihau Risg gyfredol Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaer.

11 Mae Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr Bangor yn ymdrin â'r nifer lleiaf o ddigwyddiadau, ond mae ar gael i'r sefydliadau addysgol ym Mangor, ardaloedd gorllewinol pellaf Ynys Môn gan gynnwys Porth Caergybi a Gorsaf Ynni Niwclear, Y Wylfa.

12 Mae darpariaeth Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr i arfordir canolog Gogledd Cymru yn Llandudno a'r Rhyl. Os mabwysiadir safon gweini o 30 munud, yna byddai'r Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr yn Y Rhyl yn sicrhau safon weini o 30 munud yn ddi-dor yn ymestyn o Gaergybi i Wrecsam. Byddai'r un Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr a leolir yn Llandudno yn gadael diffygiad i'r dwyrain o'r Rhyl sydd yn cynnwys Y Parlwr Du, Porthladd Mostyn a diwydiant Greenfield.

13 Bydd yr Awdurdod yn galw i gof bryderon a leisiwyd gan westywyr yn ardal Llandudno yn y gorffennol parthed darpariaeth peiriannau cyrraedd yn uchel. Fodd bynnag sefyllfa gyfreithiol y Drefn Diogelwch Tân yw y dylai gwestai fod yn gyfrifol am ddarparu ffyrdd o ddianc heb fod yn ddibynnol ar gymorth allanol; dylai medru dianc yn ddiogel fod yn gynhenid yn nyluniad yr adeilad a ni ddylid dibynnu ar ddefnyddio Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr fel modd o ddianc.

14 Os digwydd methiant technegol neu os na fydd Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr ar gael, fel lleolir y ddau beiriant arall ym Mangor ac yn Wrecsam fel y gellir parhau i gynnig darpariaeth eang.

15 Un o'r materion ynghlwm wrth adolygiadau blaenorol o ddarpariaeth Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr oedd staffio. Cyn 2008 roedd gan Beiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr griw neilltuedig o un diffoddwr tân yn ystod pob gwylfa. Oherwydd penderfyniad yr Awdurdod i symud y ddarpariaeth neilltuedig hon i Ddiogelwch Cymunedol nid oes unrhyw faterion staffio penodol ynghlwm â'r penderfyniad ynghylch Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr.

**Argymhelliad**

16 Gofynnir i Aelodau gefnogi argymhelliad y Panel Gweithredol i newid safon gweini Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr o 20 munud i 30 munud ac o ganlyniad, peidio â disodli un o'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr pan na fydd y peiriant fflyd hwnnw mewn cyflwr digon da i'w ddefnyddio.

17 Yn ychwanegol gofynnir i Aelodau ddynodi eu dewis ar gyfer lleoliad y Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr. Fodd bynnag fe gydnabyddir fod angen nifer helaeth o wybodaeth cyn penderfynu ar leoliad y Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr. Mae'r Prif Swyddog tân yn fodlon briffio Aelodau ar y mater cyn ei drafod eto yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub yn Hydref 2010.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Dadansoddiad o Ddigwyddiadau ALP

| | | Pobl ar uchder | Gyda thwr | Simdde | Achub Anifail | Mynediad | Strwythur Peryglus | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bangor | 2006 | | 1 | | | 1 | | **2** |
| | 2007 | | | | | | | |
| | 2008 | | 1 | | | | | **1** |
| | 2009 | | 1 | 3 | 1 | 2 | 1 | **8** |
| Llandudno | 2006 | | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | **11** |
| | 2007 | 2 | | 2 | | 4 | 1 | **9** |
| | 2008 | 1 | 2 | 3 | | 2 | 2 | **10** |
| | 2009 | | 1 | 4 | 1 | | 2 | **8** |
| Y Rhyl | 2006 | 5 | 5 | 3 | 1 | 2 | 1 | **17** |
| | 2007 | | 3 | | | 2 | | **5** |
| | 2008 | 1 | 6 | 2 | 1 | 1 | 3 | **14** |
| | 2009 | | 4 | 2 | | 2 | 1 | **9** |
| Wrecsam | 2006 | | 4 | 3 | | 2 | 1 | **10** |
| | 2007 | 4 | 3 | 5 | 1 | 5 | 2 | **20** |
| | 2008 | | 6 | 2 | | 1 | 1 | **10** |
| | 2009 | | 1 | 7 | 2 | 2 | 1 | **13** |
| **Cyfanswm** | | **13** | **40** | **38** | **10** | **28** | **18** | **147** |

Tabl 1